# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 10-03-10

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths ac Ieuan Roberts, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), David Eastwood, (Buddiannau'r Harbwr), Dr John J. Morris, (Buddiannau Hamdden), Robert Owen, (Buddiannau Masnachol) a Peter Lunt Williams, (Sefydliad y Bad Achub).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Ken Fitzpatrick, (Swyddog Morwrol Harbyrau), Dafydd Phillips, (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes (Swyddog Pwyllgor).

1. **YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr : Alwyn Gruffydd, Dyfed Edwards**,** (Cadeirydd Bwrdd y Cyngor), Dai Rees Jones (Is-gadeirydd Bwrdd Y Cyngor), Roy Owen, (Arweinydd Portffolio Dysgu Gydol Oes), Trevor Roberts, (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw) a Mr David McLean, (Buddiannau Perchnogion Tir).

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2009, fel rhai cywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

   Cyfeiriwyd at y cynlluniau i ymestyn y cyfleusterau pontŵn y Clwb Hwylio, ac mewn ymateb i ymholiad cadarnhaodd cynrychiolydd Buddiannau Hamdden fod trafodaethau buddiol yn parhau.

5. **ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

   Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol yn unigol:

   - Ffioedd a thaliadau
   - Cyllidebau
   - Mordwyo-angorfeydd
   - Staff
   - Pecyn cychod ymwelwyr
   - Is-ddeddfau Harbwr
   - Offer Achub Bywyd ar Y Cob

***Ffioedd a Thaliadau***

Adroddodd y swyddog fod ffioedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010/11 wedi eu hanfon, er cymeradwyaeth, at y Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio. Er na chafwyd adborth hyd yma, nid oedd y swyddog yn rhagweld unrhyw newid i'r argymhelliad.

O safbwynt Porthmadog nododd mai'r argymhelliad oedd peidio cynyddu'r ffi ar drigolion sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol tra bod ffioedd a'r taliadau i'r rhai sy'n byw tu allan i Wynedd yn cynyddu 1%. Er mai ychydig yw'r gwahaniaeth yma, esboniodd y swyddog y dylai'r fantais i'r trigolion lleol fod yn amlycach yn yr hir dymor.

Rhagwelir y bydd cynnydd mewn chwyddiant i bob harbwr yng Ngwynedd am 2010/11 yn negyddol ar -1.05%. Nodwyd bod hyn yn cyfateb i ostyngiad bach o £2,600 yng nghyfanswm targed incwm cyffredinol harbyrau..

Tynnodd y swyddog sylw arbennig at ffioedd parcio ar draeth Morfa Bychan gan nodi mai'r bwriad oedd codi £3 bob car yn ddyddiol rhwng y Pasg a 30 Mehefin a rhwng 1 a 30 Medi. Bydd y ffi yn cynyddu i £4 rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi. Nododd y swyddog na fu cynnydd yn y ffioedd ers blynyddoedd ac nid oedd yn teimlo fod y ffigyrau yma yn afresymol.

Esboniodd y swyddog ymhellach fod targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol yn cynyddu i £2,130,970 yn 2010/11 a phwysleisiodd fod hyn yn gryn her.

***Cyllidebau***

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau ynglŷn â sefyllfa ariannol Harbwr Porthmadog yn nhrydydd chwarter blwyddyn ariannol 2009/10 hyd at 31 Rhagfyr 2009.

Atgoffwyd aelodau fod targed incwm Harbwr Porthmadog am 2009/10 yn £78,700. Hyd at ddiwedd Rhagfyr 2009 cynhyrchwyd £71,856 a nodwyd fod hyn yn cymharu ag incwm o £74,280 yn yr un cyfnod y llynedd.

Gan ei bod yn annhebygol i'r incwm gynyddu'n sylweddol yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth, nododd y swyddog fod disgwyl i'r diffyg yn nharged incwm Harbwr Porthmadog hyd at 31 Mawrth, 2010 fod yn £5,800.

Nodwyd ymhellach fod gwariant yn uwch, neu yn agos i fod yn uwch na'r gyllideb, mewn cysylltiad â sawl pennawd. Disgwylir gwariant pellach yn ystod mis Mawrth, ac mae'r arwyddion ar gyfer y chwarter olaf yn awgrymu tanwariant o £13,300 yng nghyllideb Harbwr Porthmadog erbyn diwedd Mawrth 2010.

Pwysleisiodd y swyddog fod rhaid ymdrin â'r Uned Forwrol yn ei chyfanrwydd a bod angen ystyried mannau eraill o fewn y sir er ceisio cydbwysedd ariannol.
Atgoffwyd aelodau o wariant a wnaed ym Mhorthmadog yn ddiweddar, a nodwyd nad oes prosiectau mawr nac ychwaith doriadau mawr yn cael eu

hystyried ar hyn o bryd. Ac o ystyried her ariannol 2010/11, pwysleisiodd y swyddog fod rhaid gweithio i gynnal safon uchel Harbwr Porthmadog.

**Mordwyo – Angorfeydd**

Adroddodd y swyddog bod yna 17 o gymhorthion mordwyo yn arwain at harbwr Porthmadog a'i bod yn her i'w cynnal gydol y flwyddyn. Er hyn nododd fod yr ansawdd yn gwella.

Ychwanegodd fod yna newidiadau sylweddol yn y sianel gyferbyn â Chwt Powdwr ond disgwylir y bydd y cyfan wedi ei farcio'n gywir erbyn gwyliau'r Pasg.

Cyflwynwyd gwybodaeth gan y Swyddog Morwrol Harbyrau yn nodi'r problemau a gafwyd gyda'r cymhorthion mordwyo yn ystod y gaeaf a dosbarthwyd siart yn esbonio'r sefyllfa'n llawn. Ychwanegodd y swyddog fod gwaith cynnal a chadw ar y llusernau'n hanfodol a bod gwelliant cyson yn amlwg.

Adroddodd y ddau swyddog ar y gwaith archwilio sy'n cael ei wneud gan gontractwyr ar yr holl angorfeydd a nodwyd bod yr adroddiadau cychwynnol yn dda. 'Roedd y swyddogion o'r farn fod hyn yn tanlinellu gwerth y gwaith a'r gwariant a wnaed yn y gorffennol.

Cyfeiriwyd at yr angen i symud angorfeydd sydd wedi eu lleoli yn y sianel fordwyo yn ardal Borth y Gest. Nodwyd y rhain fel angorfeydd sy'n peri perygl bywyd.

Mynegwyd anfodlonrwydd gan un aelod o safbwynt hyn, ond pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau na fyddai'r angorfeydd yn cael eu symud yn bell o'u safle presennol a'i bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch.

***Staff***

Adroddodd y swyddog fod nifer o swyddogion yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn parhau i fod ar secondiad mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth.

Ychwanegwyd y bydd Harbwr Feistr Porthmadog, Mr Dafydd Phillips, sydd ar hyn o bryd ar secondiad yn Harbwr Pwllheli, yn ymddeol o'i swydd ar 31 Mawrth 2010. Cyfeiriodd y swyddog at werth gwybodaeth a phrofiad helaeth yr aelod yma o'r gweithlu a diolchodd iddo am ei gefnogaeth.

Ategwyd hyn gan y Cadeirydd a nifer o aelodau a chyfeiriwyd at barodrwydd Mr Phillips i gynorthwyo a chynghori pan oedd angen. I danlinellu gwerthfawrogiad yr ardal am wasanaeth Mr Phillips, cyflwynwyd darlun iddo yn rhodd gan Gadeirydd Cyngor Tref Porthmadog, y Cynghorydd Selwyn Griffiths, a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Penodwyd Mr David O'Neill yn olynydd i Mr Phillips fel Harbwr Feistr Porthmadog. Nodwyd fod Mr O'Neill wedi gweithio gyda'r Cyngor ers nifer o flynyddoedd.

Cyfeiriodd y swyddog ymhellach at gyfraniad yr Harbwr Feistr dros dro a fu ar secondiad ym Mhorthmadog am y tair blynedd diwethaf. Bydd y swyddog yn cychwyn yn ei swydd fel Harbwr Feistr Pwllheli ar secondiad.

**Pecyn Cychod Ymwelwyr**

Disgwylir y bydd yr holl gychod sy'n ymweld â Phorthmadog o 1 Ebrill 2010 ymlaen yn derbyn 'Pecyn Croeso'. Nodwyd bod y cynllun i'w gyflwyno ym mhob harbwr gyda'r pecynnau yn cynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys ac ati.

Cyflwynwyd Pecyn Croeso Porthmadog i'r aelodau yn y cyfarfod. Pwysleisiodd y swyddog ei fod yn awyddus i'r cynllun yma ddatblygu a galwodd ar yr aelodau i gysylltu â'r Adran os fydd ganddynt syniadau ynglŷn ag unrhyw beth ellid ei gynnwys yn y pecyn.

Croesawyd y syniad gan yr aelodau.

**Is-ddeddfau'r Harbwr**

Eglurodd y swyddog fod Is-ddeddfau drafft Harbwr Porthmadog wedi eu hailddrafftio yn dilyn sylwadau a anfonwyd at Gyngor Gwynedd gan yr Adran Drafnidiaeth ar ran y Gymdeithas Hwylio Frenhinol a Thŷ'r Drindod.

Disgwylir i fersiwn pellach o'r is-ddeddfau drafft gael eu hanfon at yr Adran Drafnidiaeth yn ystod Ebrill 2010 .

Cyflwynwyd drafft terfynol o'r Is-ddeddfau i'r aelodau i'w hystyried. Nodwyd bod Cyngor Tref Porthmadog o'r farn y dylid cynnwys Is-ddeddf 42 (1) sy'n ymdrin â gwahardd Badau Dŵr Personol. Eglurodd cynrychiolydd y Cyngor Tref mai'r farn oedd y gellid sicrhau arf pendant i'r Adran allu ymdrin â pherchnogion y badau dŵr sy'n torri rheolau.

Mewn ymateb dywedodd y swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod y system gofrestru sy'n weithredol gan y Cyngor yn arf pendant a bod y system yn gweithio'n effeithiol.

**Offer Achub Bywyd y Cob**

Mynegwyd pryder gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig oherwydd bod offer achub bywyd a leolir ar y Cob ym Mhorthmadog yn cael eu fandaleiddio'n ddyddiol. Ychwanegodd fod gwregysau achub yn cael eu tynnu o'u casys a'u lluchio i'r môr. Yn sgil hyn ni ellid eu defnyddio pe byddai eu hangen mewn argyfwng a chadarnhawyd fod yr Heddlu wedi eu hysbysu o'r trafferthion.

Pwysleisiwyd nad oes gan yr Uned Forwrol adnoddau digonol i wirio'r offer achub bywyd yn ddyddiol ac fe allent fod heb eu gwirio ac wedi eu tynnu o'u casys am ddyddiau lawer. Ychwanegodd y swyddog fod problemau tebyg yn bodoli mewn mannau eraill.

‘Roedd yr aelodau’n bryderus parthed y sefyllfa a phwysleisiwyd y dylai pawb sylweddoli difrifoldeb y sefyllfa.

Cyfeiriodd cynrychiolydd y Bad Achub at safle un bwi achub bywyd ac awgrymodd y dylid ei symud i safle mwy addas. Cadarnhawyd y byddai’r mater yn cael sylw.

Cyfeiriwyd hefyd at y blerwch o gwmpas Llyn Bach, ac er nad oedd hyn yn rhan o gyfrifoldeb yr Adran Forwrol, nodwyd y byddai trefniant yn cael ei wneud fel bo’r mater yn cael sylw.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o’r pwyllgor hwn ar 22 Medi, 2010.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7:15pm

**CADEIRYDD**